**Corff Cymeradwyo**: Grŵp Gwella Academaidd

**Perchennog**: Dirprwy Is-Ganghellor Dysgu, Addysgu a Phrofiad Myfyrwyr

**Cyswllt polisi**: Grŵp llais myfyrwyr
see-projectgroup@aber.ac.uk

**Statws polisi**: Polisi Newydd

**Dyddiad adolygu**: Mis Medi 2023

| Newidiadau polisi ar gyfer 2023 | Cyfeirnodau |
|---|---|
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |

# Polisi Rho Wybod Nawr

## Cynnwys


1. Polisi Rho Wybod Nawr (RhWN) ... 4
2. Pam rydym ni'n gofyn i chi roi gwybod nawr? ... 4
3. Pwrpas Rho Wybod Nawr yw: ... 4
4. Sut rydym ni'n gwneud hyn / proses / cyflwyno: ... 5
6. Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR): ... 5
7. Rho Wybod Nawr - Rolau a Chyfrifoldebau ... 6

  I. Myfyrwyr ... 6
  II. Rheolwr Gweinyddol y Gyfadran ... 6
  III. Cofrestrydd Cyfadran ... 6
  IV. Staff ... 6
  V. Tîm Rho Wybod Nawr ... 6
  VI. Pennaeth yr Adran Academaidd ... 7
  VII. Pennaeth yr Adran Wasanaeth ... 7
  VIII. Yr Unigolyn yn yr Adran Wasanaeth a Benodwyd i Reoli'r Mewnflwch ... 7
  IX. Deon Cyswllt, Dysgu, Addysgu a Phrofiad Myfyrwyr ... 7

# Polisi Rho Wybod Nawr

## 1. Polisi Rho Wybod Nawr (RhWN)

System adborth i fyfyrwyr ym Mhrifysgol Aberystwyth yw Rho Wybod Nawr. Mae eich adborth chi yn ein helpu ni i barhau i wella profiad myfyrwyr. Rydym ni eisiau i chi roi gwybod i ni beth rydym ni'n ei wneud yn dda, lle gallwn ni wella a beth sy'n bwysig i chi.

Caiff myfyrwyr roi adborth ar unrhyw agwedd ar eu profiad yn y Brifysgol - o'r ystafelloedd dysgu, i gynnwys y modiwlau, i'r gwasanaethau TG a'r cyfleusterau chwaraeon. Gellir cyflwyno adborth trwy ffurflen sylwadau ar-lein neu drwy e-bost. Gellir cyflwyno adborth yn ddienw, ac os felly, os rhoddir caniatâd, bydd yr ymateb yn cael ei gyhoeddi ar dudalen adborth Mae'ch Llais Chi'n Cyfrif. Os bydd y sawl sy'n cyflwyno'r adborth yn penderfynu cynnwys ei fanylion cyswllt, bydd yn derbyn ymateb uniongyrchol trwy e-bost.

Mae tîm Rho Wybod Nawr yn ymdrechu i ymateb i bob ymholiad gydag ymateb priodol mewn e-bost o fewn 5 diwrnod gwaith. Mae posibilrwydd y bydd pob adborth a gyflwynir i RhWN yn cael ei gyhoeddi ar wefan Mae'ch Llais chi'n Cyfri, yn ddibynnol ar ganiatâd ac addasrwydd.

## 2. Pam rydyn ni'n gofyn i chi roi gwybod nawr?

- Mae casglu ac adrodd ar adborth myfyrwyr yn sicrhau bod lleisiau ein myfyrwyr yn rhan o brosesau gwneud penderfyniadau’r Brifysgol.
- Mae casglu a gweithredu ar adborth yn meithrin y teimlad fod gan pob myfyriwr lais a'r gallu i wneud gwahaniaeth yn yr amgylchedd dysgu.
- Gwella Ansawdd yn Barhaus. Pwrpas RhWN yw gwella pob agwedd ar brofiad y myfyriwr.
- Mae cymryd rhan mewn systemau adborth yn rhoi sgiliau a hyder i fyfyrwyr ymgymryd â heriau yn y Brifysgol ac yn eu bywydau proffesiynol a phersonol.
- Mae RhWN yn elfen allweddol o sicrhau a gwella ansawdd y Brifysgol.

## 3. Pwrpas Rho Wybod Nawr yw:

- Dangos y bartneriaeth rhwng adrannau academaidd a gwasanaeth y Brifysgol a'r myfyrwyr a hyrwyddo’r cydweithio rhyngddynt.
- Bod yn system er mwyn ymgorffori llais y myfyrwyr yn strwythurau a gweithrediadau'r Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr.
- Rhoi fforwm i'r Brifysgol archwilio a thrafod materion a gyfyd o adborth myfyrwyr a chynnig mesurau i wella profiad y myfyrwyr.
- Gwella cyfathrebu rhwng y Brifysgol a'i Rhanddeiliaid.

## 4. Sut rydym ni'n gwneud hyn / proses / cyflwyno:

- Rydym yn monitro ac yn adolygu'r ffordd mae'r Brifysgol yn cyfathrebu â myfyrwyr ac yn ymateb i'w hadborth, gan sicrhau bod cyfleoedd i'r holl fyfyrwyr gymryd rhan yn y gwaith o wella eu profiad.
- Rydym yn monitro ac yn adolygu effeithiolrwydd systemau adborth myfyrwyr. Rydym yn monitro cyfraddau boddhad, themâu a faint o adborth a gyflwynir trwy RhWN, a chaiff adroddiadau rheoli eu darparu i gyfadrannau ac adrannau.
- Mae siartiau proses RhWN i'w gweld yn atodiadau 1.1 ac 1.2.
- Dylid ymateb i adborth myfyrwyr yn unol â Chynllun Iaith Gymraeg y Brifysgol.

## 5. Gweld data a Rhannu Canlyniadau

- Defnyddir data a gynhyrchir gan RhWN at ddibenion gwella ansawdd.
- Mae RhWN yn adrodd i'r Pwyllgor Gwella Academaidd a'r grŵp Llais Myfyrwyr.
- Caiff Cofrestryddion Cyfadran, Rheolwyr Gweinyddol a Deoniaid Cyswllt ar gyfer Dysgu Addysgu a Phrofiad Myfyrwyr weld mewnflychau RhWN Cyfadrannau.
- Caiff Penaethiaid Adrannau Academaidd a / neu Gyfarwyddwyr Dysgu ac Addysgu weld data sy'n berthnasol i'w hadran. Mae ganddynt hawl i drosglwyddo data i staff addysgu eraill yn ôl eu disgresiwn.
- Caiff penaethiaid yr Adrannau Gwasanaeth a/neu berson enwebedig yn yr adran weld y data ar gyfer eu hadran.
- Mae holl ddata RhWN ar gael i'r Dirprwy Is-Ganghellor, Dysgu, Addysgu a Phrofiad Myfyrwyr, a thîm RhWN.
- Mae'r adroddiadau a baratoir ar lefel y Brifysgol, lle gwarchodir yr hawl i aros yn ddienw, ar gael i'r uwch staff Academaidd.
- Bydd y grŵp Gweithredu ar Anabledd, y pwyllgor cyfrwng Cymraeg, y grŵp profiad myfyrwyr a'r grŵp Coronafeirws yn derbyn adroddiadau dienw ynglŷn â'r meysydd y maent yn gyfrifol amdanynt.
- Caiff aelodau staff sy'n Benaethiaid Adrannau Gwasanaeth weld adroddiadau ar lefel eu hadrannau.
- Ceir defnyddio'r data mewn mannau eraill yn ôl disgresiwn y Dirprwy Is-Ganghellor Dysgu, Addysgu a Phrofiad Myfyrwyr os oes dadl glir o blaid hynny er mwyn gwella ansawdd profiad y myfyrwyr. Diogelir hawl y rhai sy'n ymateb i aros yn ddienw. Y tu hwnt i'r defnydd a nodir rhaid cyflwyno achos dros ddefnyddio data ansoddol a data meintiol.
- Dylai unrhyw sylwadau a dderbynnir trwy RhWN y creda aelod o staff eu bod yn torri Rheolau a Rheoliadau Myfyrwyr gael eu dwyn i sylw'r Deon Cyswllt Dysgu ac Addysgu perthnasol ac, yn ôl disgresiwn yr aelod staff, gael eu diystyru.

## 6. Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR):

Bydd eich data yn cael ei brosesu yn unol â Deddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2016 (GDPR). Bydd yr holl wybodaeth a gesglir amdanoch yn cael ei chadw'n

hollol gyfrinachol a dim ond gyda'r unigolyn neu'r adran sydd yn y sefyllfa orau i ymdrin â'ch sylwadau y caiff ei rhannu. https://www.aber.ac.uk/cy/corporate-information/information-governance/dp/declaration/

Rydym yn cadw'r hawl i ddileu a/neu olygu sylwadau sy'n ymosodol neu o natur hollol bersonol. Fodd bynnag, croesawir sylwadau ystyriol ac adeiladol ac sy'n awgrymu newidiadau a fyddai'n gwella addysg a bywyd yn y Brifysgol.

Hoffem dynnu eich sylw at adran Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y wefan lle mae mwy o wybodaeth ar gael am ein polisïau yn y maes hwn: https://www.aber.ac.uk/cy/equality/

## 7. Rho Wybod Nawr - Rolau a Chyfrifoldebau

### I. Myfyrwyr

- Wrth gysylltu â Rho Wybod Nawr, anogir myfyrwyr i roi adborth adeiladol.
- Llenwi'r ffurflen RhWN yn onest a chydag ystyriaeth a pharch at staff a chyd-fyfyrwyr yn unol â'r Rheolau a'r Rheoliadau Myfyrwyr.

### II. Rheolwr Gweinyddol y Gyfadran

- Monitro a rheoli'r mewnflychau ar lefel y cyfadrannau.
- Brysbennu'r sylwadau RhWN i'r unigolyn/ion priodol
- Monitro a mynd ar ôl ymatebion gan yr adran.
- Anfon yr ymateb ymlaen at y myfyriwr (lle rhoddir manylion y myfyrwyr) a'r tîm RhWN.

### III. Cofrestrydd Cyfadran

- Bod â chyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau bod y broses RhWN yn gweithio'n effeithiol yn eu cyfadran a sicrhau bod staff allweddol sy'n gyfrifol am RhWN yn eu cyfadran yn cyflawni eu cyfrifoldebau fel yr amlinellir yn y polisi hwn.

### IV. Staff

- Anogir aelodau staff i ymgysylltu â RhWN yn ôl yr angen.
- Cyfeirio myfyrwyr at RhWN pan fo'n briodol.

### V. Tîm Rho Wybod Nawr

- Monitro a rheoli mewnflwch RhWN.
- Cofnodi pob sylw yn briodol a rheoli'r lòg.
- Brysbennu RhWN i adran, cyfadran neu bennaeth adran fel sy'n briodol
- Anfon taenlenni wythnosol i gyfadrannau neu adrannau lle pery sylwadau heb eu datrys.

- Monitro a mynd ar ôl unrhyw sylwadau sydd heb eu datrys.
- Hidlo ac ymateb i unrhyw fyfyriwr y mae ei sylwadau'n torri rheolau a rheoliadau'r myfyrwyr
- Hidlo ymatebion gan adrannau gwasanaeth, lle bo hynny'n briodol, ac ymateb yn uniongyrchol i'r myfyriwr.
- Penderfynu a yw'r sylw yn addas i gael ei gyhoeddi ar dudalennau gwe Dy Lais ar Waith a'i baratoi ar gyfer ei gyhoeddi.

## VI. Pennaeth yr Adran Academaidd

- Bod â chyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau bod Rho Wybod Nawr yn gweithio'n effeithiol yn eu Hadran. Mae hyn yn cynnwys cyswllt â staff ar bob lefel, delio â materion allweddol wrth iddynt godi, ymateb i sylwadau RhWN a monitro ymatebion, a sicrhau bod y staff yn cyflawni eu cyfrifoldebau fel yr amlinellir yn y polisi hwn.
- Bod yn gyfrifol am ymchwilio ac ymateb i sylwadau sensitif.

## VII. Pennaeth yr Adran Wasanaeth

- Bod â chyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau bod Rho Wybod Nawr yn gweithio'n effeithiol yn eu Hadran. Mae hyn yn cynnwys cyswllt â staff ar bob lefel, delio â materion allweddol wrth iddynt godi, ymateb i sylwadau RhWN a monitro ymatebion, a sicrhau bod y staff yn cyflawni eu cyfrifoldebau fel yr amlinellir yn y polisi hwn.
- Bod yn gyfrifol am ymchwilio ac ymateb i sylwadau sensitif.

## VIII. Yr Unigolyn yn yr Adran Wasanaeth a Benodwyd i Reoli'r Mewnflwch.

- Monitro a rheoli'r mewnflychau priodol a'r sylwadau RhWN.
- Brysbennu'r sylwadau RhWN i'r unigolyn/ion priodol
- Monitro a mynd ar ôl ymatebion gan y sawl y brysbennwyd y sylw iddo.
- Anfon yr ymateb i'r tîm RhWN.


## IX. Deon Cyswllt, Dysgu, Addysgu a Phrofiad Myfyrwyr

- Y Deon Cyswllt, Dysgu, Addysgu a Phrofiad Myfyrwyr sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau bod RhWN yn gweithio'n effeithiol yn ei Gyfadran. Mae hyn yn cynnwys ymgysylltu â staff ar bob lefel, delio â materion allweddol wrth iddynt godi, monitro cynlluniau gweithredu a sicrhau bod adrannau'n cyflawni eu cyfrifoldebau fel yr amlinellir yn y polisi hwn.
- Adnabod a mynd i'r afael â themâu a materion cyffredin ar draws y gyfadran y tynnir sylw atynt gan RhWN.
- Bod yn gyfrifol am ystyried unrhyw sylwadau RhWN y tynnir sylw atynt gan aelod o staff sy'n credu bod y RhWN yn torri Rheolau a Rheoliadau'r Myfyrwyr a phenderfynu sut i ymdrin â'r adborth.

## Polisi Rho Wybod Nawr

Atodiad 1.1

### RhWN Siart Llif Cyfadran




Cofrestrydd Cyfadran – CC
Rheolwyr Gweinyddol – RhG
Deon Cyswllt Dysgu, Addysgu a Phrofiad Myfyrwyr

Atodiad 1.2

## RhWN Siart Llif Adran Wasanaeth

